**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu o'r enw: Brexit, y sector celfyddydol, y diwydiannau creadigol a'r Iaith Gymraeg**

---

Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd ac aelodau y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am eu hadroddiad a'r argymhellion ystyriol. Rwy'n cytuno bod ein diwydiannau creadigol, ein celfyddydau, ein sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yng Nghymru yn elwa o fod yn aelodau o'r UE, nid yn unig oherwydd cyllid yr UE ond hefyd o ran cael gweithwyr crefftus a'r rhyddid i bobl symud, y farchnad sengl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, a chymryd rhan mewn rhaglenni a phartneriaethau Ewropeaidd, ymysg pethau eraill. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU ac yn parhau i gynllunio ar gyfer pob canlyniad posibl yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

Mae ymatebion manwl Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad yn cael eu nodi isod:

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobïo Llywodraeth y DU i barhau i fod yn rhan o Creative Europe, Horizon 2020 ac Erasmus+ unwaith y byddwn yn gadael yr UE. Os nad yw hyn yn bosibl yna dylai Llywodraeth Cymru fynd ar ôl yr opsiwn o aelodaeth gan ddefnyddio yr enghraifft o gyfraniad Quebec at Horizon 2020.

<u>Derbyn</u>: Creative Europe yw rhaglen fframwaith yr UE i roi cymorth i'r sectorau diwylliant a chlyw-weledol. Mae'r rhaglen yn rhoi cyllid sylweddol i gwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Mae papur gwyn y DU yn nodi bod y DU yn barod i barhau i gyfrannu at Creative Europe er mwyn cefnogi'r sectorau diwylliannol, creadigol a chlyweledol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio cadarnhad i weld a fydd hyn yn bosibl a sut y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu hwyluso hyn. Gan bod hwn yn gynllun y mae gennym ddiddordeb uniongyrchol ynddo, gan roi cyngor yn uniongyrchol i ymgeiswyr o Gymru, mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau. Ni all Llywodraeth y DU wneud y penderfyniad hwn ar eu pennau eu hunain. Mae angen ymrwymiad arnom i sicrhau tryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau a chytundeb ar y cyd ar yr achos positif sydd i'w gyflwyno.

Erasmus+ sydd hefyd wedi rhoi cymorth sylweddol ar gyfer gweithgareddau diwylliannol ar draws pob un o'r sectorau. Mae diwedd y cyfnod gweithredu yn cyd-fynd â diwedd naturiol y cynllun, ac mae papur gwyn y DU yn nodi bod y DU yn barod i edrych ar gyfrannu at y cynllun olynol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i lobïo hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r cysylltiad â rhaglen Horizon 2020 ac yn cyfarfod yn rheolaidd gyda swyddogion perthnasol Llywodraeth y ‘DU ar y pwnc hwn.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan yr hoffai edrych ar yr opsiwn o gysylltiadau â rhagln Horizon 2020/Horizon Europe

Mae Quebec yn cyfrannu at raglen Horizon 2020 fel rhan o Canada, sy'n drydydd gwlad (heb fod yn gysylltiedig). Mae Quebec yn gweithredu cynllun cymorth taleithiol ar gyfer cydweithredu rhyngwladol. Mae'r cynllun yn gallu ariannu cyfraniad sefydliadau o Quebec sy'n rhan o gonsortia 2020 fel trydydd gwlad. Mae gan y DU ddarpariaeth o'r fath eisoes drwy ymestyn y gwarant cyllido. Gallai cynllun y DU roi manteision dros gynllun Quebec os yw'n cyd-fynd â rhaglen Horizon 2020 cymaint â phosib o ran amseru, cyfraddau cyllido a darpariaethau eraill.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno achos dros y trefniadau llacaf posibl ar gyfer symud llafur sy'n hanfodol i gynhyrchiant economaidd a diwylliannol diwydiant creadigol Cymru.

Derbyn: Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw system ymfudo newydd sy'n creu mwy o gysylltiad rhwng ymfudo a gwaith fel y gallwn recriwtio'r gweithwyr rydyn ni eu hangen, tra'n gwarchod gweithwyr rhag cael eu camddefnyddio. Rydym yn cydnabod bod risg gwirioneddol o wneud y broblem o brinder sgiliau yn y DU yn waeth - o leiaf yn y tymor byr i ganolig pe byddai Llywodraeth y DU yn gweithredu system ymfudo llymach. Mae nifer o weithwyr llawrydd wedi dibynnu ar ryddid i symud fel ffordd o gyrraedd y DU ac efallai na fydd modd cael fisa Haen 2 yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i unrhyw gynnig i adolygu'r rheolau ymfudo a fisa fod yn seiliedig ar ddeall anghenion penodol y diwydiannau diwylliannol a chreadigol ble nad yw gwerth cerddor ifanc neu gynllunydd apiau yn y camau cyntaf o angenrheidrwydd yn gymesur â throthwyon cyflog neu gymwysterau a gafodd eu hargymell yn ddiweddar i Lywodraeth y DU gan adroddiad y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo ar ymfudo i'r EEA.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau na fydd unrhyw drefniadau yn y dyfodol i alluogi gweithwyr Ewropeaidd i ddod i Gymru ac i weithwyr Cymru fynd i Ewrop yn rhy anodd yn ariannol ac yn weinyddol i gyflogwyr bychain. Dylai'r trefniadau ystyried hefyd y ffaith bod y sector celfyddydau yn fwy tebygol o barhau i gyflogi pobl.

Derbyn. Rydym yn cydnabod anghenion y diwydiannau diwylliannol a chreadigol o ran contractau gwaith arferol, ac yn croesawu ymrwymiadau Llywodraeth y DU ym mhapur gwyn strategaeth Brexit sy'n cael ei baratoi i ganiatáu i ddinasyddion yr UE

deithio yn rhwydd heb fisa yn y DU ar gyfer gwaith twristaidd a gwaith dros dro ac i ganiatáu i fyfyrwyr yr UE i astudio yn y DU. Ond hoffem groesawu rhagor o fanylion gan Lywodraeth y DU ar sut y gallai trefniadau ymfudo weithio wedi Brexit, ac i aros am y papur gwyn ar ymfudo y bu aros mawr amdano ac sydd wedi ei addo ar gyfer yr hydref.

**Goblygiadau ariannol:** Dim.  Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 4.** Y dylai Llywodraeth Cymru baratoi gwybodaeth a chyngor ar gyfer y diwydiant ar effaith posibl cyfyngu ar symud nwyddau a gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys "siop un stop" ar gyfer cwmnïau teithio gyda gwybodaeth am ofynion Ewropeaidd ar gyfer contractau gwaith, fisa, cludo offer, yswiriant a threthiant.

**Derbyn mewn Egwyddor** : Rydym wedi lansio gwefan Paratoi Cymru fel platfform ar-lein i roi yr wybodaeth ddiweddaraf i helpu busnesau, pobl a diwydiant baratoi ar gyfer Brexit, gan gynnwys sefyllfa o ddim cytundeb.  Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau gyda ffynonellau gwybodaeth a deunyddiau eraill, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei baratoi gan Lywodraeth y DU.
Fodd bynnag, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ddatblygu llawer o'r wybodaeth hon – er enghraifft, nid yw'r wybodaeth am fisas ac yswiriant wedi'u datganoli wedi Brexit ac wedi'i chreu gan Lywodraeth y DU.  Bydd Paratoi Cymru yn gallu cyfeirio unigolion a sefydliadau at wybodaeth o'r fath a byddant yn gwneud hynny.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 5.** Yn y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno eu hachos i aros yn rhan o'r fframwaith rheoleiddiol gydag Ewrop. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad oes llai o warchod eiddo deallusol unwaith y byddwn yn gadael yr UE.

Derbyn: Ym mis Mehefin y llynedd ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Lywodraeth y DU ynghylch ei thrafodaethau gyda'r UE ar gynigion i newid rheolau hawlfraint yn y farchnad sengl ddigidol. Dywedwyd bryd hynny bod amddiffyn hawlfraint ar draws y ffin yn hanfodol i gwmnïau o Gymru ac mae hynny yn parhau i fod yn wir. Boed y DU yn rhan o'r UE ai peidio, mae angen rheolau clir y mae modd eu gorfodi ar fusnesau Cymru er mwyn gweithio yn ddigidol heb rwystrau ar draws y ffin, a sicrhau bod eu heiddo deallusol ar draws pob marchnad yn cael eu hamddiffyn yn dda ac i weithredu dull cadarn o fonitro achosion o ddwyn Eiddo Deallusol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim.  Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad risg ar effaith Brexit ar gymunedau Cymraeg eu hiaith; yr iaith Gymraeg a dysgu iaith mewn ysgolion a phrifysgolion yng Nghymru.

Derbyn: Mae dwy agwedd i'r argymhelliad hwn:

- effaith Brexit ar gymunedau Cymraeg a'r iaith Gymraeg yn fwy cyffredinol; a
- effaith Brexit ar ddysgu iaith mewn ysgolion a phrifysgolion yng Nghymru.

Mewn perthynas ag **effaith Brexit ar gymunedau Cymraeg a'r iaith Gymraeg yn fwy cyffredinol** :Ein dull ar gyfer asesu risg ar effaith Brexit ar gymunedau Cymraeg a'r iaith Gymraeg yn fwy cyffredinol fydd asesu yn barhaol fel rhan o'n gwaith i fonitro rhaglen strategaeth *Cymraeg 2050*. Nid astudiaeth feintiol o effeithiau ar y Gymraeg fydd hyn, ond yn hytrach dull o asesu fydd yn adnabod y prif risgiau i weithredu gwahanol agweddau ein strategaeth. Mae hyn yn adlewyrchu natur trawsbynciol y Gymraeg a'r ffaith y bydd effaith Brexit ar y Gymraeg yn y rhan fwyaf o achosion yn effaith anuniongyrchol yn sgil newidiadau posibl i wneuthuriad socio-economaidd cymunedau.

Er enghraifft, bydd effaith ar y sector amaethyddol a'r economi wledig yn herio gwydnwch cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae economi hyfyw yn ganolog i greu'r amodau cymdeithasol i alluogi siaradwyr Cymraeg i aros yn y cymunedau Cymraeg, neu i ddychwelyd i fyw a gweithio yn y cymunedau hynny. Mae hyn yn agwedd hollbwysig o strategaeth *Cymraeg 2050.*

Gan hynny, rydym yn ymrwymo i sicrhau fod ein hymateb i Brexit ar draws y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth lawn i'r goblygiadau posibl ar gymunedau Cymraeg a'r iaith Gymraeg. Er enghraifft, rydym wedi ymrwymo drwy'r newidiadau a gynhigiwyd yn yr ymgynghoriad diweddar *'Brexit: Ein Tir'* i gadw ffermwyr ar y tir, ac i weithio gyda ffermwyr i greu dyfodol gwell, mwy llewyrchus i'r sector. Rydym eisoes wedi ymrwymo i gynnal Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ar ein cynigion terfynol yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Byddwn yn gwneud asesiadau pellach yn ôl yr angen yng nghyd-destun newidiadau polisi eraill y bydd eu hangen o ganlyniad i Brexit.

Mae Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol wedi bod yn gohebu gyda Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch effaith bosibl Brexit ar y Gymraeg. Bydd trafodaethau gyda'r Comisiynydd ynghylch y mater hwn yn parhau.

Mewn perthynas ag **effaith Brexit ar ddysgu iaith mewn ysgolion a phrifysolion yng Nghymru** ein hymateb yw :Mae dysgu ieithoedd eraill yn elfen bwysig o addysg plant a phobl ifanc. Mae ymchwil yn dangos ei fod yn ehangu gorwelion, yn cyflwyno dysgwyr i ddiwylliannau eraill ac yn darparu'r profiadau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn yr economi fyd-eang newydd. Mae ymwybyddiaeth o amrywiaeth ieithyddol yng nghartrefi ac ysgolion dysgwyr yn helpu i adeiladu a datblygu cysylltiadau ar draws cymunedau ac felly'n cynyddu cydlyniant cymunedol. Mae'n

bwysig fod pobl ifanc o bob cefndir yn deall y buddion o ddysgu iaith ac yn cael y cyfle i ddysgu iaith.

Dyma’r rheswm pam y bydd ieithoedd yn chwarae rhan amlwg yn nghwricwlwm newydd Cymru. Bydd y maes Dysgu a Phrofiad, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yng nghwricwlwm newydd Cymru yn dod â’r Gymraeg, Saesneg a Ieithoedd Rhyngwladol at ei gilydd. Mae Ieithoedd Rhyngwladol yn cynnwys ieithoedd modern, ieithoedd cymunedol, ieithoedd clasurol a Iaith Arwyddion Prydain. Bydd disgyblion yn dysgu Cymraeg a Saesneg o oedran 3-16. Byddant yn dechrau dysgu iaith (ieithoedd) ryngwladol yn yr ysgol gynradd. Bydd hyn yn cynnwys dysgu am ieithoedd a dysgu am hunaniaeth a diwylliant drwy iaith. Ni fydd y Gymraeg yn cael ei rhannu yn rhaglenni astudio ar wahân ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf ac ail.

Pan fydd Cymru yn gadael yr UE, bydd angen sefydlu a chynnal partneriaethau masnachu rhyngwladol gyda gwledydd eraill er budd yr economi. Er mwyn llwyddo i wneud hynny, bydd angen ieithyddion fydd yn gallu negodi cytundebau. Mae ffigurau darpariaeth a ffigurau ymgeisio ar gyfer arholiadau yn awgrymu na fydd cyflenwad ddigonol o ieithyddion ar gael er mwyn cwrdd â’r galw. Mae’r *Language Trends Survey 2018* y Cyngor Prydeinig, adroddiad *Mind your language* Gorwel, a phapur *Speaking from Wales: Building a Modern Languages Community in the Era of Brexit* gan Yr Athro Claire Gorrarrs (Athro Ffrangeg Prifysgol Caerdydd ac arweinydd academaidd y Prosiect Mentora Ieithoedd Tramor Modern) oll yn gwneud y cyswllt rhwng Brexit a chynnydd yn yr angen am ieithyddion Cymreig.

Fodd bynnag, ar draws y DU mae gostyngiad wedi bod yn niferoedd y dysgwyr sy’n astudio ieithoedd tramor modern i lefel arholiad. Mae’r cynnydd yn y gystadleuaeth ar gyfer amser pynciau ar amserlenni ysgolion a’r canfyddiad o sefyllfa ddominyddol y Saesneg fel iaith busnes byd-eang wedi cyfrannu at y lleihad yma. Mae’r dull o fewn y cwricwlwm newydd yn anelu at fynd i’r afael â’r gostyngiad hwn. Fodd bynnag mae hefyd yn bwysig felly ein bod yn asesu yr effaith y gall Brexit ei gael ar y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â dysgu ieithoedd mewn ysgolion a phrifysgolion yng Nghymru. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i’r mater hwn er mwyn sicrhau fod yr asesiad effaith yn alinio gydag ymchwil arall sydd wedi ei gynllunio ar ddysgu ac addysgu ieithoedd yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim mewn perthynas â’r asesiad risg ar gymunedau Cymraeg a’r iaith Gymraeg.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal arolwg o'r manteision "meddal" i sefydliadau diwylliannol o fod yn aelodau o rwydweithiau Ewropeaidd anffurfiol a ffurfiol ac i ddatblygu opsiynau ar gyfer parhau i fod yn aelodau o'r rhwydweithiau hyn i godi proffil ein sefydliadau celfyddydol, treftadaethol a diwylliannol ar y llwyfan rhyngwladol.

<u>Derbyn</u>: Mae bod yn aelod o grwpiau diwylliannol a rhwydweithiau yr UE yn rhoi gwybodaeth am farchnadoedd a chyfleoedd rhyngwladol. Bydd gwybodaeth o'r fath yn hanfodol inni allu dylanwadu ar drafodaethau'r dyfodol a datblygu cysylltiadau diwylliannol a masnachol newydd yn Ewrop a thu hwnt.

**Goblygiadau ariannol:** Dim.  Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.